


Ymgynghoriad:
# Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhagfyr 2016

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ymgynghoriad:

# Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhagfyr 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys


**Rhagair** ..... 1

**Trosolwg** ..... 3

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ..... 3

Manylion cyswllt: ..... 3

**Diogelu data** ..... 4

Sut y bydd y safbwyntiau a'r wybodaeth a roddwch inni yn cael eu defnyddio ..... 4

Diogelu data ..... 4

Cyhoeddi ymatebion ..... 4

Ceisiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol am wybodaeth ..... 4

**Diben y papur hwn** ..... 6

**Y cyfle i newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol** ..... 7

Enwau seneddau eraill ..... 8

Newidiadau i'r setliad datganoli ac i'r Cynulliad Cenedlaethol ..... 8

**Hanes y Cynulliad** ..... 9

**Y prif newidiadau yn setliad datganoli'r Cynulliad Cenedlaethol** ..... 11

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ..... 11

Refferendwm 2011 - symud at bwerau deddfu llawn ..... 11

Deddf Cymru 2014 ..... 11

Bil Cymru 2016 ..... 12

Cwestiynau'r ymgynghoriad ..... 13

**Opsiynau a awgrymwyd ar gyfer yr enw** ..... 15

Cwestiynau'r ymgynghoriad ..... 16

**Sut byddai'r newid yn digwydd?** ..... 17

Amserlen ar gyfer newid enw ..... 17

Goblygiadau posibl ..... 18

Cwestiynau'r ymgynghoriad ..... 19

**Asesu'r effaith ar gydraddoldeb** ..... 21

**Atodiad A: Bil drafft anodedig** ..... 25

**Atodiad B: Enwau seneddau eraill** ..... 28

# Rhagair



Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi newid yn aruthrol ers imi gael fy ethol gyntaf ym 1999. Mae'n ddeddfwrfa genedlaethol inni erbyn heddiw, â'r pŵer i basio deddfau a chytuno ar drethi. Mae'n dwyn y Llywodraeth i gyfrif am ei phenderfyniadau i gyd a'r modd y mae'n defnyddio cyllideb o £15 biliwn y flwyddyn, a dyma ganolbwynt y ddadl ddemocrataidd genedlaethol yng Nghymru ynglŷn â materion pwysicaf y dydd.

Mae'r drefn ddatganoli yng Nghymru wedi newid mor anhygoel o gyflym nes inni fethu â sicrhau dealltwriaeth gyson ymhlith y cyhoedd o swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r materion y mae'n gyfrifol amdanynt.

Yn ôl y niferoedd sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, arolygon i ganfod beth yw argraff y cyhoedd ohono, a gwybodaeth a gasglwyd gan Gomisiwn y Cynulliad trwy waith ymgysylltu, mae lefel dealltwriaeth pobl o'r hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei wneud ac o gwmpas ei bwerau yn isel. Mae BBC Cymru wedi cynnal cyfres o arolygon barn yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae'r rhain yn awgrymu bod llawer o bobl heb fod yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am bynciau fel iechyd, addysg, llywodraeth leol a materion allweddol eraill sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Nid yw'r ffaith fod Llywodraeth Cymru, tan yn ddiweddar, yn cael ei galw'n "Llywodraeth Cynulliad Cymru" wedi cynorthwyo pobl i ddeall sut mae Cymru yn cael ei llywodraethu a'r gwahaniaeth rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol. I rai, mae'r teitl "Cynulliad" yn gysylltiedig o hyd â phwerau gwreiddiol, cyfyngedig y sefydliad, yn hytrach na'r sefyllfa yr ydym ynddi heddiw fel corff seneddol cyflawn y mae ei swyddogaeth a'i arwyddocâd yn cyfateb i seneddau y DU a'r Alban. Dim ond dau o bob pump o'r rhai a holwyd mewn arolygon barn yn ddiweddar a oedd yn sylweddoli bod gwahaniaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal amrywiaeth o raglenni ymgysylltu er mwyn codi ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth a chynyddu cyfranogiad. Rydym yn creu cyswllt â miloedd o bobl bob blwyddyn trwy fynd i ysgolion, grwpiau ieuenctid a grwpiau cymuned, trwy fod â phresenoldeb mewn digwyddiadau diwylliannol o bwys yng Nghymru, a thrwy groesawu pobl i'r Senedd a'r Pierhead ar gyfer digwyddiadau, teithiau tywys ac ymweliadau.

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn rydym yn gwybod nad yw pobl Cymru ar hyn o bryd yn deall swyddogaeth a phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn llwyr. Mae'n amlwg i mi felly bod angen gwneud mwy i gynorthwyo pobl i ddeall swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol fel y ddeddfwrfa ddemocrataidd genedlaethol, a'r gwahaniaeth rhyngddo â Llywodraeth Cymru.

Yn gynharach eleni, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol y dylai "newid ei enw i adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol". Os bydd Mesur Cymru, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd, yn cael ei basio, bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i wneud yr union beth hwnnw. Mae'r ymgynghoriad hwn felly yn gofyn a ydych chi'n cytuno â'r cynnig ac, os felly, pa enw ddylid ei fabwysiadu i adlewyrchu swyddogaeth a statws y sefydliad yn ein cymdeithas orau.

Rwyf am i'r sefydliad hwn ysbrydoli hyder, ymddiriedaeth a balchder yn y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Ni fyddwn yn llwyddo i wneud hynny trwy newid yr enw'n unig ond credaf y bydd yn gwneud cyfraniad pwysig, ac felly mae'n bleser gennyf lansio'r ymgynghoriad hwn i glywed eich barn ynglŷn ag enw eich Cynulliad chi, eich Senedd chi.

**Elin Jones AC,**
**Y Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Trosolwg

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gynorthwyo'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn ceisio barn y cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â chynnig i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cyhoeddi** | 8 Rhagfyr 2016 |
| **Dyddiad y daw'r ymgynghoriad i ben** | 3 Mawrth 2017 |

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfres o gwestiynau y ceisir ymatebion iddynt. Gellir hefyd lawrlwytho'r ffurflen gwestiynau, ei llenwi a'i hanfon atom ni trwy e-bost neu'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Mae arolwg ar-lein ar gael hefyd i'w lenwi ar wefan y Cynulliad – **www.cynulliad.cymru/enw.**

## Manylion cyswllt:

**E-bost:**

– **ComisiwnyCynulliad.Ymgynghori@cynulliad.cymru**

– **AssemblyCommission.Consultations@assembly.wales**

**Cyfeiriad:**
RHADBOST CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Ysgrifennwch ar gefn yr amlen: **At sylw Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad**

**Rhif ffôn:**
0300 200 6565

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Diogelu data

## Sut y bydd y safbwyntiau a'r wybodaeth a roddwch inni yn cael eu defnyddio

Bydd staff Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymdrin â phwnc yr ymgynghoriad hwn yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn ei gyfanrwydd. Mae'n bosibl hefyd y bydd Comisiynwyr y Cynulliad ac Aelodau eraill y Cynulliad yn ei weld. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddarparu ystadegau dienw at ddibenion paratoi adroddiad.

## Diogelu data

Bydd y wybodaeth a roddwch inni yn yr ymgynghoriad hwn yn cael ei defnyddio gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, a'i chadw hyd nes i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Os bydd angen cymryd camau ychwanegol, caiff yr wybodaeth ei defnyddio i lywio'r gwaith hwnnw a'i chadw nes i'r broses gael ei chwblhau. Ni fydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Rydym yn deall nad yw pawb yn dymuno rhoi’r wybodaeth hon, a dyna pam mai mater gwirfoddol yw ei datgelu.

Ceir **arolwg ar-lein ar Survey Monkey** i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn, a bydd y cwmni'n cadw'r holl ymatebion. Mae gwefan Survey Monkey yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd yn defnyddio'ch gwybodaeth **https://www.surveymonkey.com/mp/policy/privacy-policy/**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio, cysylltwch â ni ar

– **ComisiwnyCynulliad.Ymgynghori@cynulliad.cymru**

– **AssemblyCommission.Consultations@assembly.wales**

## Cyhoeddi ymatebion

Mae'n bosibl y bydd Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon a'r arolwg cysylltiedig, ac fe allai gyhoeddi rhai o'r ymatebion yn llawn yn rhan o'r crynodeb hwn. Bydd unrhyw ymatebion sy'n cael eu cyhoeddi (ar ffurf copi caled neu ar-lein) yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd.

## Ceisiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol am wybodaeth

Os gwneir cais am wybodaeth o dan y ddeddfwriaeth hawl i wybodaeth, efallai y bydd rhaid datgelu'r rhan o’r wybodaeth a ddarparwyd gennych neu’r wybodaeth i gyd. Fe allai hynny gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Senedd

# Diben y papur hwn

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Comisiwn”) yn ceisio barn y cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â chynnig i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nod y ddogfen hon:

– Egluro pam mae Comisiwn y Cynulliad o'r farn fod angen newid o'r fath;

– Rhoi rhywfaint o gefndir ynglŷn â natur y setliad datganoli yng Nghymru a phwerau'r Cynulliad Cenedlaethol;

– Amlinellu'r cyfle sydd ar gael yn awr i newid yr enw yn sgil Bil Cymru 2016 a sut y gellir cyflawni hynny trwy gyfrwng deddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol (gan roi'r amserlenni posibl);

– Tynnu sylw at y Bil drafft a ddarparwyd i gyd-fynd â'r ddogfen hon er mwyn dangos sut y byddai newid o'r fath yn cael ei weithredu;

– Cyflwyno'r opsiynau a awgrymwyd ar gyfer yr enw, a'r teitlau sy'n deillio o hynny ar gyfer yr Aelodau; a

– Rhoi gwybodaeth am oblygiadau'r cynnig i newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys manylion y costau a amcangyfrifir.

Gwahoddir atebion i'r cwestiynau a gyflwynir trwy'r ddogfen hon. Mae'r cwestiynau hyn hefyd wedi'u grwpio gyda'i gilydd mewn dogfen ar wahân[1]. Croesewir sylwadau ar unrhyw agwedd ar y cynnig, wrth gwrs, ac mae'r Comisiwn hefyd yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig ategol, ychwanegol.

**Cyhoeddwyd arolwg ar-lein hefyd mewn cysylltiad â'r cynnig hwn.**

[1] Mae'r cwestiynau ar gael i'w hateb mewn ffurflen Word ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol neu trwy arolwg ar-lein yn www.cynulliad.cymru/enw.

# Y cyfle i newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol

Mae Bil Cymru 2016 yn gosod fframwaith cyfansoddiadol newydd i Gymru. Os caiff ei basio, bydd yn newid y setliad datganoli i fodel cadw pwerau ac yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol reoli ei drefniadau etholiadol a'i weithdrefnau mewnol ei hun, gan gynnwys y pŵer i newid ei enw.

Y Bil hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o newidiadau arwyddocaol i bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol ers ei sefydlu.

Pwerau cyfyngedig oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol pan gafodd ei sefydlu i ddechrau. Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i fod yn gorff corfforaethol a oedd yn cyfuno swyddogaethau senedd a llywodraeth mewn un sefydliad. Ni allai'r Cynulliad Cenedlaethol basio deddfau, a dim ond pwerau cyfyngedig a oedd ganddo. Yn yr un flwyddyn, creodd Deddf yr Alban 1998 Senedd yr Alban, a oedd yn llawer mwy grymus ac yn meddu ar y pwerau i ddeddfu ar amrywiaeth eang o bynciau.

Fel y mae'r tudalennau a ganlyn yn ei ddangos, mae pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynyddu'n raddol dros yr 20 mlynedd diwethaf o ddatganoli. Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, ac mae ganddo swyddogaeth senedd erbyn hyn. Mae Deddfau eraill y DU wedi gwahanu Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ffurfiol i greu dau sefydliad cwbl ar wahân. Bellach, mae'n gweithio i raddau helaeth yn yr un modd â Senedd y DU yn San Steffan a strwythurau cyfansoddiadol eraill ledled y byd, trwy ddeddfu i Gymru, cytuno ar drethi i Gymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Fodd bynnag, mae'r newidiadau hyn i gyd wedi creu darlun braidd yn aneglur o ble mae'r pŵer a'r atebolrwydd yng Nghymru erbyn hyn. Yn ystod ei waith trwy dymor diwethaf y Cynulliad Cenedlaethol, mae Comisiwn y Cynulliad wedi casglu ystod o wybodaeth sy'n awgrymu bod dryswch ynglŷn â swyddogaethau gwahanol y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r Senedd a'r Llywodraeth yn San Steffan.

O ganlyniad i'r amrywiaeth o raglenni ymgysylltu y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cynnal, gwyddom nad yw pobl Cymru ar hyn o bryd yn deall swyddogaeth a phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn llwyr. Roedd 69% o'r rhai a gymerodd ran mewn arolwg gan Beaufort Research yn 2013 â llai na gwybodaeth weddol am swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a dangosodd arolwg barn a gynhaliwyd gan ICM, ac a gomisiynwyd gan y BBC yn 2014, mai dim ond 48% o ddinasyddion Cymru a oedd yn gwybod mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y GIG. Meddai'r Athro Roger Scully o Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd: "The figures are not great in terms of public understanding of who is responsible for what. I think that it does show there is still a lot of confusion amongst people about exactly where the line for responsibility comes between London and Cardiff Bay in terms of governance."

O ystyried hyn, mae Comisiwn y Cynulliad yn teimlo mai dyma'r amser priodol i ystyried newid yr enw "Cynulliad Cenedlaethol" yn un sy'n rhoi disgrifiad mwy cywir o sefydliad â'r cyfrifoldebau sydd ganddo. Yn arbennig, mae'r Comisiwn am i enw'r sefydliad gynorthwyo'r cyhoedd i ddeall ei swyddogaeth yn well.

Mae holl Aelodau'r Cynulliad o'r un farn gan iddynt gytuno'n unfrydol, mewn dadl ar 5 Gorffennaf 2016, i'r cynnig y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol "newid ei enw i adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol". Gofynnodd y Cynulliad Cenedlaethol i'r Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad ystyried goblygiadau newid o'r fath a'r ffordd orau i'w roi ar waith.[2]

Yn ystod y ddadl, mynegodd Aelodau'r Cynulliad y gobaith y gellid ymgysylltu'n well â'r cyhoedd trwy newid yr enw, gan eu cynorthwyo i ddeall yn well y pwerau a ddatganolwyd i'r ddeddfwrfa a'r llywodraeth yng Nghymru, a chynyddu lefelau cyfranogiad democrataidd.

## Enwau seneddau eraill

Wrth edrych ar y cyd-destun rhyngwladol, gellir gweld bod amrywiaeth o enwau'n cael eu defnyddio i ddisgrifio sefydliadau democrataidd sydd â phwerau deddfwriaethol.

Er mwyn cymharu, mae Atodiad 2 ar ddiwedd y ddogfen hon yn rhoi rhestr fer o enwau seneddau a chynulliadau cenedlaethol neu ranbarthol eraill tebyg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Newidiadau i'r setliad datganoli ac i'r Cynulliad Cenedlaethol

Mae hanes datganoli yng Nghymru yn un graddol. Ers diwedd y 19eg ganrif a thrwy gydol yr 20fed ganrif, gwelwyd mwy a mwy o gydnabyddiaeth bod gan Gymru ei hanghenion ei hun. Dangosir hyn yn y ffaith fod Senedd y DU wedi pasio Deddfau penodol i Gymru am y tro cyntaf.

Ar 18 Medi 1997, mewn refferendwm ynglŷn â datganoli i Gymru, pleidleisiodd mwyafrif o etholwyr Cymru o blaid creu Cynulliad Cenedlaethol.

O ganlyniad, ym 1998, pasiwyd Deddf Llywodraeth Cymru, gan greu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd yr etholiad cyntaf ei gynnal ar 6 Mai 1999.

O'r adeg hon a thros y 17 blynedd nesaf, mae'r setliad datganoli a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun wedi gweld newidiadau sylweddol. Rhoddir llinell amser gryno ar y dudalen nesaf.

[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Cyfarfod Llawn, 5 Gorffennaf 2016

# Hanes y Cynulliad

**18 Medi 1997 -** Y Refferendwm yn cael ei gynnal. Dros hanner – 50.3 y cant – o blaid Cynulliad i Gymru

1 Y Cynulliad Cyntaf **1999-2003**

2 Yr Ail Cynulliad **2003-2007**

3 Y Trydydd Cynulliad **2007-2011**

4 Y Pedwerydd Cynulliad **2011-2016**

5 Y Pumed Cynulliad **2016-2021**

## 1

**6 Mai 1999**
Etholiad cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol.

**27 Tachwedd 1999**
Y cynnig cyntaf i dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng gwahanol rannau'r Cynulliad, sef y llywodraeth (y weithrediaeth) a'r senedd (y ddeddfwrfa). O hyn ymlaen, bydd y term Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r Cabinet a'i waith.

**18 Ebrill 2002**
Sefydlu Comisiwn Richard i wneud argymhellion ynghylch pwerau'r Cynulliad.

## 2

**1 Mai 2003**
Ail etholiad y Cynulliad.

**31 Mawrth 2004**
Cyhoeddi adroddiad Comisiwn Richard, sy'n argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael rhagor o bwerau i ddeddfu.

**6 Hydref 2004**
Y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio o blaid gwahanu'r llywodraeth a'r Cynulliad, ac o blaid rhagor o bwerau i ddeddfu.

**25 Gorffennaf 2006**
Cyhoeddi Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau, polisïau ac is-ddeddfwriaeth ac am eu gweithredu. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cadw golwg ar benderfyniadau a gweithredoedd Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer refferendwm arall ar bwerau deddfu llawn ac i senedd y DU roi'r hawl i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud cyfreithiau ("Mesurau") trwy ddefnyddio Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol i ddatganoli cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol fesul achos unigol.

3

**3 Mai 2007**
Trydydd etholiad y Cynulliad Cenedlaethol.

**9 Gorffennaf 2008**
Mesur cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol, sef Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 - y gyfraith Gymreig gyntaf i gael ei phasio ers y ddegfed ganrif - yn dod yn gyfraith yng Nghymru ar ôl cael cymeradwyaeth yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Mawrhydi y Frenhines.

**4 Mawrth 2011**
Cyhoeddi canlyniad swyddogol refferendwm 2011 ar bwerau deddfu llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol. Pleidleisiodd 63.5 y cant o blaid a 36.5 y cant yn erbyn. Y ganran a bleidleisiodd yn y refferendwm oedd 35.6 y cant.

4

**3 Mai 2011**
Pedwerydd etholiad y Cynulliad Cenedlaethol.

**11 Hydref 2011**
Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru - a elwir hefyd yn Gomisiwn Silk - yn cael ei sefydlu gan Lywodraeth y DU i ystyried dyfodol y setliad datganoli yng Nghymru: Pwerau ariannol Cymru (Rhan 1 o'r gwaith) a phwerau deddfwriaethol (Rhan 2 o'r gwaith).

**12 Tachwedd 2012**
Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, sef y Bil Cymreig cyntaf i gael ei basio o dan bwerau newydd y Cynulliad, yn cael Cydsyniad Brenhinol.

**20 Mawrth 2014**
O ganlyniad i adroddiad Rhan 1 Comisiwn Silk ar bwerau ariannol, Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil Cymru 2014 sy'n rhoi nifer o bwerau ariannol newydd i Gymru.

**13 Mai 2014**
Cyhoeddi adroddiad Rhan 2 Comisiwn Silk ar bwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**17 Rhagfyr 2014**
Deddf Cymru 2014 yn cael Cydsyniad Brenhinol yn y Senedd, gan roi pwerau ym maes trethi a benthyca i'r Cynulliad, a newid rhai trefniadau etholiadol.

**27 Chwefror 2015**
Ar ôl cyhoeddi adroddiad Rhan 2 Comisiwn Silk a chynlluniau i ddatganoli rhagor o bwerau i'r Alban, Cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi gan Lywodraeth y DU, Pwerau at Bwrpas, yn gosod patrwm ar gyfer dyfodol datganoli, gan gynnwys isafswm cyllid a phwerau ychwanegol ym maes ynni, trafnidiaeth a'r amgylchedd.

**20 Hydref 2015**
Cyhoeddi Bil Cymru drafft, sy'n cynnig newidiadau i bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

5

**5 May 2016**
Pumed etholiad y Cynulliad.

**6 Mehefin 2016**
Bil Cymru 2016 yn cael ei gyflwyno yn Senedd y DU ac yn cael ei Ddarlleniad Cyntaf. Bydd y Bil hwn yn gweithredu cynigion Cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi, gan ddatganoli rhagor o bwerau i Gymru a newid y setliad datganoli i fodel "cadw pwerau".

# Y prif newidiadau yn setliad datganoli'r Cynulliad Cenedlaethol

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Deddf y DU yw hon, a daeth i rym ar ôl etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2007.

Roedd yn creu rhaniad cyfreithiol, ffurfiol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru - sef y 60 o Aelodau'r Cynulliad - a Llywodraeth Cynulliad Cymru - sef y Prif Weinidog, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Am y tro cyntaf, roedd gwahaniaeth clir rhwng gwaith y ddeddfwrfa (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) a gwaith y weithrediaeth (Llywodraeth Cymru).

Roedd Deddf 2006 hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ofyn i Senedd y DU am y pŵer i ddeddfu i Gymru mewn "meysydd" penodol fel yr amgylchedd, bwyd a thai. Enw'r cyfreithiau hyn oedd "Mesurau" Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("Mesurau'r Cynulliad"). Roedd y Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer refferendwm arall ar bwerau deddfu llawn.

## Refferendwm 2011 - symud at bwerau deddfu llawn

Cafodd refferendwm ei chynnal ar 3 Mawrth 2011. Roedd yn gofyn i bobl Cymru a oeddynt o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol allu pasio ei ddeddfau ei hun ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli heb ganiatâd Senedd y DU.

Pleidleisiodd 63.5 y cant o blaid ac, o ganlyniad, gall y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar gyfer Cymru mewn 21 maes pwnc a nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Deddfau Cynulliad yw'r enw a roddir erbyn hyn i gyfreithiau a wneir gan y Cynulliad.

## Deddf Cymru 2014

Roedd y Ddeddf hon yn datganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol:

- Roedd y Ddeddf yn gwneud Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am godi cyfran o'i chyllideb drwy'r pwerau a roddwyd iddi ym maes trethi a benthyca. Datganolwyd ardrethi busnes o fis Ebrill 2015, a bydd treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yn dilyn yn 2018.
- Gwnaed darpariaeth hefyd ar gyfer datganoli treth incwm yn rhannol (yn amodol ar refferendwm) ac ar gyfer datblygu trethi newydd i Gymru (yn amodol ar gytundeb llywodraeth y DU).
- Yn ogystal â'r pwerau cyllidol hyn, roedd y Ddeddf hefyd: yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol bob pum mlynedd (yn hytrach na phob pedair blynedd, fel oedd yn wir cyn hynny); yn rhoi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio yn y refferendwm ar dreth incwm (ond nid mewn unrhyw etholiad arall); yn cael gwared ar y cyfyngiad ar sefyll fel ymgeisydd rhanbarthol ac ymgeisydd etholaeth yn etholiad y Cynulliad; ac yn atal Aelodau Seneddol rhag bod yn Aelodau Cynulliad (ac eithrio mewn rhai amgylchiadau penodol iawn).

## Bil Cymru 2016

Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil Cymru ym mis Mehefin 2016 a, chan gymryd y bydd yn cael ei basio ac yn cael Cydsyniad Brenhinol, bydd yn:

– datganoli rhagor o bwerau i Lywodraeth Cymru mewn meysydd fel trafnidiaeth ac adnoddau naturiol;

– newid cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o fodel "rhoi pwerau" i fodel "cadw pwerau", (h.y. yn hytrach na'r model "rhoi pwerau" presennol sy'n caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar bynciau penodol a restrwyd yn unig, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu deddfu mewn unrhyw faes nad yw wedi'i "gadw" yn benodol i'r DU);

– cael gwared ar yr angen i gynnal refferendwm cyn datganoli pwerau'n rhannol ym maes treth incwm; ac yn

– datganoli pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar gyfer ei drefniadau etholiadol, ariannol a gweithredol ei hun – gan gynnwys ei enw.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Fel rhan o’r ymgynghoriad hwn, gofynnir y cwestiynau canlynol ichi:

**1. Ydych chi'n ymateb ar rhan sefydliad?**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| ☐ | ☐ |

**Os ydych, nodwch enw'r sefydliad:**

**2. I ba raddau yr ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau isod?**

Mae pobl yn deall swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dda:

| Anghytuno'n bendant | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n bendant |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Mae enw sefydliad yn bwysig i egluro'r hyn y mae'n ei wneud:

| Anghytuno'n bendant | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n bendant |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw:

| Anghytuno'n bendant | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n bendant |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |



# Opsiynau a awgrymwyd ar gyfer yr enw

Yn ystod dadl y Cynulliad Cenedlaethol ar y pwnc hwn, cynigiwyd gwahanol ddewisiadau â'r nod o adlewyrchu statws y Cynulliad fel senedd genedlaethol. Rhestrir y rhain isod, ynghyd â theitlau posibl ar gyfer Aelodau sefydliad o'r enw dan sylw.

| Enw'r sefydliad | Teitl yr Aelodau |
|---|---|
| **Senedd Cymru**<br>**Parliament of Wales** | **Aelod o Senedd Cymru (ASC)**<br>**Member of the Parliament of Wales (MPW)**<br>neu<br>**Aelod o Senedd Cymru (ASC)**<br>**Wales Parliament Member (WPM)** |
| **Senedd** | **Aelod o'r Senedd (AS)**<br>**Member of the Senedd (MS)** |
| **Senedd Cymru**<br>**Welsh Parliament** | **Aelod o Senedd Cymru (ASC)**<br>**Member of the Welsh Parliament (MWP)**<br>neu<br>**Aelod o Senedd Cymru (ASC)**<br>**Welsh Parliament Member (WPM)**<br>neu<br>**Aelod o Senedd Cymru (ASC)**<br>**Member of Senedd Cymru (MSC)** |

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Gofynnir y cwestiynau canlynol ichi:

3. **Pa mor dda, yn eich barn chi, y mae'r enwau isod yn disgrifio swyddogaeth a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru \| National Assembly for Wales | | | | |
| Ddim o gwbl ☐ | Ddim yn dda iawn ☐ | Ddim yn gwybod ☐ | Yn eithaf da ☐ | Yn dda iawn ☐ |
| Senedd Cymru \| Parliament of Wales | | | | |
| Ddim o gwbl ☐ | Ddim yn dda iawn ☐ | Ddim yn gwybod ☐ | Yn eithaf da ☐ | Yn dda iawn ☐ |
| Senedd | | | | |
| Ddim o gwbl ☐ | Ddim yn dda iawn ☐ | Ddim yn gwybod ☐ | Yn eithaf da ☐ | Yn dda iawn ☐ |
| Senedd Cymru \| Welsh Parliament | | | | |
| Ddim o gwbl ☐ | Ddim yn dda iawn ☐ | Ddim yn gwybod ☐ | Yn eithaf da ☐ | Yn dda iawn ☐ |

4. **Pe byddai un o'r opsiynau a awgrymir yn cael ei ddewis er mwyn newid yr enw, byddai hefyd angen newid teitl yr Aelodau. Nodwch pa deitl yn y rhestr hon sydd orau gennych:**

| Teitl yr Aelodau | Ticiwch yr opsiwn sydd orau gennych |
|---|---|
| Aelod o Senedd Cymru (ASC)<br>Member of the Parliament of Wales (MPW) | ☐ |
| Aelod o Senedd Cymru (ASC)<br>Wales Parliament Member (WPM) | ☐ |
| Aelod o Senedd Cymru (ASC)<br>Member of the Welsh Parliament (MWP) | ☐ |
| Aelod o Senedd Cymru (ASC)<br>Welsh Parliament Member (WPM) | ☐ |
| Aelod o Senedd Cymru (ASC)<br>Member of Senedd Cymru (MSC) | ☐ |
| Aelod o'r Senedd (AS)<br>Member of the Senedd (MS) | ☐ |

Mewn rhai achosion byddai teitl yr Aelodau yn aros yr un fath yn Gymraeg, a dim ond y teitlau Saesneg fyddai'n wahanol.

# Sut byddai'r newid yn digwydd?

Mae Bil Cymru 2016 yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol newid ei enw trwy Ddeddf Cynulliad. Byddai angen cefnogaeth 40 o'r 60 Aelod Cynulliad ar gyfer Deddf o'r fath (gelwir hyn yn uwch-fwyafrif).

Gellir tybio y byddai modd newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol yn anffurfiol, dim ond trwy annog pobl i ddefnyddio teitl newydd mewn gweithgarwch o ddydd i ddydd. Er y byddai enw'r sefydliad yn ôl y gyfraith yn parhau yn "Cynulliad Cenedlaethol "Cymru", dros gyfnod o amser byddai'r Aelodau, y cyfryngau a'r cyhoedd yn gyffredinol yn defnyddio teitl gwahanol i gyfeirio ato. Dilynwyd y dull hwn gan Lywodraeth Cymru pan roddodd y gorau i gynnwys y gair "Cynulliad" yn ei deitl ymhell cyn i'r newid gael effaith statudol yn Neddf Cymru 2014.

Er hynny, mae risgiau cyfreithiol a gweinyddol, a risgiau yn ymwneud â chost, yn gysylltiedig â'r dull anffurfiol hwn. Felly, er mwyn osgoi'r risgiau hyn, ac unrhyw ddryswch, mae'r Comisiwn yn bwriadu rhoi effaith i unrhyw newid trwy ddeddfwriaeth. Nid ydym wedi penderfynu eto a fyddai Bil o'r fath yn ddarn o ddeddfwriaeth ar ei ben ei hun, at y diben hwn yn unig, ynteu a fyddai'n well ei gyfuno â materion perthnasol eraill. Y naill ffordd neu'r llall, byddai'r cynnwys yn syml, ac yn canolbwyntio ar:

– enw'r sefydliad;

– teitl yr Aelodau;

– enw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

– enwau cyrff cysylltiedig (fel Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru);

– y dyddiad y byddai'r newid yn dod i rym.

I ddangos sut beth allai deddfwriaeth o'r fath fod, darperir Bil drafft yn Atodiad A.

## Amserlen ar gyfer newid enw

Gan fod y pŵer i ddeddfu i newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gynnwys ym Mil Cymru 2016, rhaid i'r Bil hwn yn gyntaf gwblhau ei hynt trwy Senedd y DU a chael cydsyniad y Cynulliad.Amcangyfrifir y byddai'r Bil yn cael ei ddeddfu erbyn mis Mawrth 2017, a bydd y pŵer i newid yr enw yn cychwyn dau fis wedi hynny. Yr adeg gynharaf felly y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno Bil â'r pŵer hwn fyddai oddeutu mis Mai 2017. Gan ganiatáu ar gyfer proses graffu arferol y Cynulliad Cenedlaethol, ni ellid pasio unrhyw Fil o'r fath i newid yr enw cyn gwanwyn 2018.

Er hynny, gall fod angen deddfwriaeth ar gyfer materion eraill yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithrediad y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yn ddiweddar, er enghraifft, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ei fwriad i arwain gwaith i ddiwygio maint y Cynulliad Cenedlaethol a'i system etholiadol. Bydd y Comisiwn yn penderfynu yn ystod y flwyddyn nesaf felly a ddylid bwrw ymlaen cyn gynted ag y bo modd â deddfwriaeth i newid yr enw, ynteu a ddylid aros ychydig a chynnwys unrhyw newid mewn Bil diwygio ehangach.

## Goblygiadau posibl

Fel yn achos unrhyw ddeddfwriaeth, byddai angen paratoi Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â Bil i newid yr enw, gan gynnwys dadansoddiad o'r goblygiadau ariannol.[3] Nid yw'r cynnig presennol ond yn ystyried Bil Cynulliad i newid enw'r sefydliad.

Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o oblygiadau ariannol posibl newid yr enw. Ni waeth pa enw a ddewisir, mae'r goblygiadau yn debygol o fod yr un fath. Fodd bynnag, fe allai'r modd y gweithredir y newid enw ddylanwadu ar y goblygiadau ariannol.

Byddai'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn cael eu hwynebu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Cynulliad, a hynny unwaith yn unig. Maent yn ymwneud ag arwyddion ar yr ystâd ei hun ac yn swyddfeydd etholaeth a swyddfeydd rhanbarthol yr Aelodau, deunyddiau arddangos a deunyddiau cyfathrebu eraill fel cyhoeddiadau. Byddai llawer o'r costau hyn yn cael eu hosgoi trwy gynllunio'n ofalus ar gyfer gweithredu'r newid.

Byddai costau hefyd i rai asiantaethau allanol eraill er mwyn gosod arwyddion ffyrdd newydd yn yr ardal o amgylch y Cynulliad.

Bydd yr union gostau felly yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys graddfa unrhyw waith ailfrandio neu benderfyniad i ddefnyddio ymgynghorwyr allanol i gyflawni'r newid. Maent yn amrywio rhwng oddeutu £40,000 a £150,000, a byddai hyn yn cyfateb i rhwng 0.1 y cant a 0.4 y cant o gyllideb flynyddol y Comisiwn.

Pe byddid yn penderfynu bwrw ymlaen i gyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol, byddai'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn cynnwys asesiad effaith â mwy o fanylion am y costau hyn.

[3] Fel sy'n ofynnol o dan **Reolau Sefydlog** y Cynulliad Cenedlaethol (RhS 26.6-26.6C)

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Gofynnir y cwestiynau canlynol ichi:

**Ar ôl ystyried yr wybodaeth uchod, mae'r cwestiynau isod yn gofyn am eich sylwadau ar gynnig presennol y Comisiwn.**

5. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig i newid yr enw yn unol â cham nesaf datganoli ym mis Ebrill 2018?**

6. **Paratowyd Bil drafft i ddangos sut beth allai deddf i newid yr enw fod, ac mae hwn i'w weld yn Atodiad A. A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Bil drafft hwn?**

7. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ar y cynnig i gyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol?**



# Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl yn ein gwaith. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrannu at asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, o safbwynt y cynnig i newid yr enw. Pe byddid yn penderfynu bwrw ymlaen i gyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad, bydd y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn cynnwys yr asesiad effaith hwn, yn ogystal ag asesiadau eraill.

Rydym yn gofyn i gyfranogwyr roi gwybodaeth amdanynt eu hunain er mwyn inni allu sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd i gyfranogi, ac yn dileu ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag cyfranogi pan fo modd.

Mae'r ffurflen fonitro hon wedi ei chynllunio gan ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rydym wedi defnyddio'r dull hwn gan y bydd yn sicrhau cysondeb ac yn ein galluogi i gymharu cynnyrch ystadegol o wahanol ffynonellau ledled y DU.

Mae croeso ichi adael unrhyw gwestiynau yn wag os nad ydych yn gyfforddus yn ei hateb.

**1. Ble'r ydych chi'n byw?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | ☐ | Sir Fynwy | ☐ |
| Pen-y-bont ar Ogwr | ☐ | Castell-nedd Port Talbot | ☐ |
| Caerffili | ☐ | Casnewydd | ☐ |
| Caerdydd | ☐ | Sir Benfro | ☐ |
| Sir Gaerfyrddin | ☐ | Powys | ☐ |
| Ceredigion | ☐ | Rhondda Cynon Taf | ☐ |
| Conwy | ☐ | Abertawe | ☐ |
| Sir Ddinbych | ☐ | Torfaen | ☐ |
| Sir y Fflint | ☐ | Bro Morgannwg | ☐ |
| Gwynedd | ☐ | Wrecsam | ☐ |
| Ynys Môn | ☐ | Y tu allan i Gymru | ☐ |
| Merthyr Tudful | ☐ | | |

**2. Ai dyn neu fenyw ydych chi?**

- ☐ Dyn
- ☐ Menyw
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**3. A ydych yn ystyried eich bod yn drawsryweddol?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**4. Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?**

- ☐ Deurywiol
- ☐ Menyw hoyw / lesbiad
- ☐ Dyn hoyw
- ☐ Heterorywiol
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall (nodwch)

**5. Faint yw eich oed?**

- ☐ O dan 16 oed
- ☐ 16 - 18
- ☐ 19 - 25
- ☐ 26 - 35
- ☐ 36 - 59
- ☐ Dros 60 oed

**6. A oes gennych anabledd?**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**7. Disgrifiwch eich anabledd. Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.**

- ☐ Anabledd corfforol
- ☐ Iechyd meddwl
- ☐ Anabledd dysgu
- ☐ Nam ar y synhwyrau
- ☐ Cyflwr meddygol (e.e. canser, HIV, MS, cyflwr arall)

**8. Sut y byddech yn disgrifio eich cefndir ethnig?**

- ☐ Cymro/Cymraes
- ☐ Sais/Saesnes
- ☐ Albanwr/Albanes
- ☐ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- ☐ Prydeiniwr/Prydeines
- ☐ Arall (nodwch)

**9. Disgrifiwch eich tarddiad ethnig**

- ☐ Gwyn
- ☐ Cymysg/Sawl grŵp ethnig
- ☐ Asiaidd
- ☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd
- ☐ Arall (nodwch)

**10. I ba rai o'r crefyddau, cyrff neu enwadau crefyddol a ganlyn yr ydych chi'n perthyn ar hyn o bryd?**

- ☐ Bwdhydd
- ☐ Iddew
- ☐ Sikh
- ☐ Cristnogol
- ☐ Hindŵ
- ☐ Mwslim
- ☐ Arall
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Dim

# Atodiad A: Bil drafft anodedig

**Teitl Agoriadol**
Ar ôl i'r Bil gael ei basio a chael "Cydsyniad Brenhinol" gan y Frenhines, mae'n dod yn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn y ddogfen hon felly, cyfeirir at y Bil fel "Deddf" gan mai dyma y'i gelwir pan fydd mewn grym.

Y frawddeg gyntaf hon yw "teitl hir" y Bil. Mae gan y Bil deitl byr hefyd (gweler isod). Defnyddir y teitl byr fel arfer i gyfeirio ar Ddeddfau.

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi cael cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

**Geiriau deddfu**
Datganiad cyntaf y Bil yw'r rhain. Fe'u gelwir yn "eiriau deddfu" ac maent yn angenrheidiol er mwyn rhoi effaith gyfreithiol i'r Ddeddf.

Bydd yr adran hon yn newid enw'r Cynulliad yn enw newydd.

**1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd wedi ei gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "y Cynulliad") i gael ei alw yn [ ].

Ym mhob un o'r cromfachau sgwâr hyn, bydd yr enw i'w weld yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn yr un modd, bydd yr enw i'w weld yn y ddwy iaith yn fersiwn Saesneg y Bil.

Bydd yr adran hon yn newid y teitl a ddefnyddir ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

**2 Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae Aelodau o'r Cynulliad i gael eu galw yn [ ].

Y Clerc yw'r uwch-swyddog sy'n gwasanaethu'r Cynulliad ac sy'n gweithredu fel ei Brif Weithredwr. Bydd yr adran hon yn newid teitl y Clerc.

**3 Clerc y Cynulliad**

Mae Clerc y Cynulliad y cyfeirir ato yn adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gael ei alw yn [ ].

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n darparu eiddo, staff a gwasanaethau ar gyfer y Cynulliad a'i Aelodau. Mae'r Comisiwn yn cyflogi staff. Y Clerc yw'r aelod uchaf o'r staff (gweler uchod).

**4 Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd wedi ei gyfansoddi yn ôl adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gael ei alw yn [ ].

**5 Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd wedi ei gyfansoddi yn ôl Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 i gael ei alw yn [ ].

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n pennu tâl a lwfansau'r Aelodau. Bydd ei enw yn newid yn rhinwedd yr adran hon.

Bydd teitl Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn newid yn rhinwedd yr adran hon.

**6 Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru y cyfeirir ato yn adran 1 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 i gael ei alw yn [ ].

7 **Diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol**

Ewch i'r Atodlen i weld y newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r amryw unigolion a chyrff y cyfeirir atynt uchod yn cael eu disgrifio mewn amrywiaeth o gyfreithiau. Bydd yr Atodlen yn newid y cyfreithiau hynny er mwyn rhoi effaith i'r newid enw.

Bydd hyn yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad benderfynu diwygio unrhyw gyfraith nad yw'n cael ei rhestru yn yr Atodlen. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai cyfreithiau newydd yn y dyfodol gyfeirio at y "Cynulliad", ac y bydd angen eu newid i gyfeirio at yr enw newydd.

**8 Diwygiadau ychwanegol i ddeddfwriaeth bresennol**

8.1 Caiff y Cynulliad benderfynu diwygio'r Atodlen.

8.2 Mae unrhyw benderfyniad a wneir yn unol ag is-adran (1) yn cael effaith fel pe bai wedi ei nodi mewn Deddf Cynulliad.

Yr oll y mae'r geiriad hwn yn ei olygu yw y bydd penderfyniad y Cynulliad yn cael ei ystyried yn gyfraith.

Bydd yr adran hon yn nodi'r dyddiad y bydd y newid enw yn cael effaith.

**9 Cychwyn**

Daw'r Ddeddf hon i rym ar [ ].

Dyma'r teitl "byr" a ddefnyddir fel arfer i gyfeirio at y Ddeddf.

**10 Teitl byr**

Teitl byr y Ddeddf hon yw Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Newid Enw) 2018.

**ATODLEN**

**Rhan Un**

Ym mhob un o'r deddfiadau a restrir isod, hepgorer "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a mewnosoder [ ].

[ ]

**Rhan Dau**

Ym mhob un o'r deddfiadau a restrir isod, hepgorer "Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a mewnosoder [ ].

[ ]

**Rhan Tri**

Ym mhob un o'r deddfiadau a restrir isod, hepgorer "Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a mewnosoder [ ].

[ ]

**Rhan Pedwar**

Ym mhob un o'r deddfiadau a restrir isod, hepgorer "Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a mewnosoder [ ].

[ ]

Bydd manylion yr Atodlen yn cael eu cwblhau yn ddiweddarach. Ar ôl dewis enw ar gyfer y Cynulliad a'r gwahanol unigolion a chyrff y cyfeirir atynt uchod, bydd modd rhestru'r cyfreithiau y mae angen eu newid er mwyn rhoi effaith i'r enw newydd. Felly bydd y cyfreithiau (neu'r "deddfiadau") hynny yn cael eu rhestru yma.

# Atodiad B: Enwau seneddau eraill

## Y cyd-destun rhyngwladol: Sefydliadau seneddol a rhanbarthau ymreolaethol

Wrth edrych ar y cyd-destun rhyngwladol, gwelwn fod amrywiaeth o enwau'n cael eu defnyddio i ddisgrifio sefydliadau democrataidd rhanbarthol neu genedlaethol â phwerau deddfwriaethol a phwerau i godi trethi, er bod eu pwerau deddfwriaethol penodol yn amrywio o un wlad i'r llall ac o un rhanbarth i'r llall. Yma, rydym yn canolbwyntio ar ddetholiad o'r rhai sydd â phwerau deddfu.




### 1 Yr Eidal

Senedd wladwriaethol: **Senedd yr Eidal**

Is-wladwriaeth (rhanbarthau): **Cyngor Rhanbarthol neu Gynulliad Rhanbarthol**

Caiff rhanbarthau'r Eidal ddeddfu ac mae ganddynt yr hawl i gasglu rhai trethi a ffrydiau refeniw.

Mae gan y rhanbarthau bŵer deddfwriaethol llwyr mewn cysylltiad ag unrhyw fater nad yw wedi'i gadw'n benodol i gyfraith y wladwriaeth. Maent yn cadw 20 y cant o'r holl drethi a godir, gan eu defnyddio'n bennaf i ariannu'r system gofal iechyd sy'n seiliedig ar drefn ranbarthol.

Mae gan bob rhanbarth senedd etholedig, o'r enw Consiglio Regionale (cyngor rhanbarthol), neu Assemblea Regionale (cynulliad rhanbarthol) a llywodraeth o'r enw Giunta Regionale (cyngres ranbarthol), dan arweiniad arlywydd rhanbarthol sy'n cael ei ethol yn uniongyrchol.




## 2 Sbaen

Senedd wladwriaethol: **Senedd Sbaen**

Is-wladwriaeth (cymunedau ymreolaethol - rhanbarthau a chenhedloedd hanesyddol): **Senedd neu Gynulliad**

Mae pwerau cymunedau ymreolaethol Sbaen yn amrywio. Maent yn arfer pwerau deddfwriaethol. I seneddau'r cenhedloedd hanesyddol (Gwlad y Basg, Navarra, Catalwnia, Castilla y Leon) y datganolwyd y pwerau mwyaf. Yn wahanol i'r rhanbarthau eraill, mae Gwlad y Basg a Navarra yn gyfrifol am weinyddu a chasglu trethi yn uniongyrchol, ac maent yn talu cyfran ohonynt i Lywodraeth Sbaen.

Er enghraifft, gall Senedd Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg ddeddfu mewn meysydd fel cynllunio trefol, gweithfeydd cyhoeddus, tai, amddiffyn yr amgylchedd, materion diwylliannol, chwaraeon a hamdden, twristiaeth, iechyd a lles cymdeithasol, a meithrin yr iaith ranbarthol. Mae ganddi ei heddlu ei hun (yr Ertzaintza), mae'n rheoli'r cyfundrefnau addysg ac iechyd, ac mae ganddi orsaf radio/teledu.

Enghreifftiau: Senedd Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg, Senedd Navarra, Senedd Catalwnia, Senedd Galisia, Cynulliad Madrid.

## 3 Yr Almaen

Senedd wladwriaethol: **Senedd yr Almaen**

Is-wladwriaeth (taleithiau ffederal): **Senedd Daleithiol**

Mae'r Almaen yn weriniaeth ffederal sy'n cynnwys un ar bymtheg o daleithiau ffederal o'r enw "Länder". Mae gan bob un ei senedd daleithiol ei hun. Llywodraeth yr Almaen sy'n llwyr gyfrifol am bynciau fel materion tramor ac amddiffyn, ac mae'r taleithiau a'r ffederasiwn yn rhannu'r awdurdod dros bynciau eraill. Mae'r Länder yn cadw'r awdurdod deddfwriaethol am feysydd fel diwylliant, addysg a hyfforddiant swyddi.




## 4 Awstralia

Senedd wladwriaethol: **Senedd Awstralia**

Is-wladwriaeth (taleithiau a thiriogaethau): **Senedd neu Gynulliad**

Mae Awstralia yn ffederasiwn, â chwe thalaith a dwy diriogaeth hunanlywodraethol. Mae gan bob un ei chyfansoddiad a'i deddfwrfa ei hun. Mae'r taleithiau yn cadw'r pŵer i wneud eu cyfreithiau eu hunain.

Mae cyfreithiau'r taleithiau yn ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i'r taleithiau'n bennaf, fel: ysgolion, iechyd, seilwaith a thrafnidiaeth gyhoeddus, cyfleustodau, mwyngloddio ac amaethyddiaeth, yr heddlu a charchardai.

Enghreifftiau: Senedd Queensland, Senedd De Cymru Newydd, Cynulliad Deddfwriaethol Tiriogaeth y Gogledd.

## 5 Gwlad Belg

Senedd wladwriaethol: **Senedd Ffederal Gwlad Belg**

Is-wladwriaeth (rhanbarthau a chymunedau): **Senedd**

Mae gan Ranbarthau Fflandrys, Wallonia-Brwsel a Brwsel-Prifddinas a'r cymunedau Ffrengig, Almaenig a Fflandrysaidd "seneddau" sydd â phwerau deddfwriaethol dros feysydd fel trafnidiaeth, gweithfeydd cyhoeddus, polisi dŵr, materion diwylliannol, addysg, iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd, tai, neilltuo parthau a pholisi economaidd a diwydiannol. Maent yn dibynnu am eu cyllid ar drefn o rannu refeniw. Mae ganddynt yr awdurdod i gasglu rhai trethi penodol (gordollau fel arfer).

Enghreifftiau: Senedd Fflandrys, Senedd Wallonia, Senedd Ffederasiwn Wallonia-Brwsel, Senedd Rhanbarth Brwsel-Prifddinas




## 6 Ffrainc

Senedd wladwriaethol: **Senedd Ffrainc**

Is-wladwriaeth (rhanbarthau a chymunedau): **Cyngor Rhanbarthol**

Mae Senedd Ffrainc yn cynnwys y Senedd (Sénat) a'r Cynulliad Cenedlaethol (Assemblée nationale). Nid oes gan y rhanbarthau awdurdod deddfwriaethol ar wahân ac felly ni chant ysgrifennu eu cyfraith statudol eu hunain.

## 7 Canada a Thaleithiau Canada

Senedd wladwriaethol: **Senedd Canada**

Is-wladwriaeth (taleithiau a thiriogaethau): **Cynulliad Deddfwriaethol**

Mae Canada yn ffederasiwn â senedd genedlaethol a llywodraeth ffederal a deg o ddeddfwrfeydd taleithiol. Mae gan bob talaith (a thiriogaeth) ei deddfwrfa ei hun. Mae gan bob Cynulliad Deddfwriaethol reolaeth dros feysydd fel: ysgolion, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, priffyrdd ac ati. Mae gan y Cynulliadau Deddfwriaethol bwerau ym maes treth incwm personol a chorfforaethol a threthi defnyddwyr.

Enghreifftiau: Cynulliad Deddfwriaethol Alberta, Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick, Cynulliad Cenedlaethol Quebec.